Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhagfyr 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud
@crc-wmc.org.uk

Lleidr amser?

Yn ôl disgrifiad yr awdur Wayne W Dyer mae gohirio cyn gwneud rhywbeth fel "lleidr amser".

Pa heriau rheolaeth fuoch chi'n eu gohirio cyn rhoi sylw iddyn nhw'n ddiweddar – delio ag aelod anodd o staff; gwneud cysylltiad gwerthfawr newydd neu gael gwared ar wasanaeth nad yw'n gwneud elw, efallai? Ydych chi wedi ystyried effaith y gohirio yma ar eich enw da a'ch busnes a / ynteu ydych chi wedi edrych yn fanwl ar sut i dorri'r arfer niweidiol yma?

Rhoi credyd lle nad oes haeddiant?

Yn ôl arolwg newydd gan Mamut, arbenigwyr meddalwedd busnes, mae mwy na hanner y cwmnïau â llai nag 20 o weithwyr yn dioddef oherwydd anfonebau'n cael eu talu'n hwyr; ymysg cwmnïau gweithgynhyrchu bach, mae'r ganran yn cynyddu i 75%.

Pa mor gadarn ydych chi'n rheoli credyd? Os mai cwmni bychan ydych chi, ydych chi'n drugarog â chwsmeriaid rheolaidd sy'n araf yn talu, oherwydd eich bod yn ofni canlyniadau troi'r drol? Ydych chi wedi derbyn unrhyw gyngor ar sut i gyflymu taliadau tra'n cadw'r perthnasau hyn?

Cystadleuaeth poblogrwydd

Mae Jeremy Bullmore, awdur 'Another Bad Day at the Office' yn rhybuddio yn erbyn y perygl a ddaw i awdurdod pennaeth o du gweithiwr sy'n boblogaidd iawn ymysg ei gydweithwyr / ei chydweithwyr, ond sy'n methu â chyflawni ei (d)dyletswyddau.

Ydych chi'n deg wrth ddelio â'r holl staff sy'n tangyflawni, ynteu fyddwch chi'n llai parod i wynebu unigolion sy'n hoff gan bawb rhag ofn gelyniaethu eu 'cyfeillion' ar y staff ac ansefydlogi'r tîm? Allai yn eich rhoi mewn perygl o fwy o drafferthion pe byddai eraill rydych wedi'u ceryddu'n teimlo'ch bod chi'n cadw safonau dwbl?

Glynu at y rheolau

Tra bo staff yn draddodiadol yn cwyno bod eu gweithle yn llawn mân reolau a mân reoliadau, darganfu arolwg newydd gan asiantaeth recriwtio ar-lein TipTopJob.com fod bron 60% o weithwyr y DU yn y bôn yn cytuno â'r rheolau mae eu penaethiaid yn eu gosod.

Ydych chi'n cael eich temtio i blygu'ch rheolau'ch hun o bryd i'w gilydd er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad yn eich gweithle, ynteu ydych chi'n credu bod rheolau'n cael eu gosod er budd pawb ac y bydd creu eithriadau yn gwneud dim ond gwanhau eich sefyllfa ac annog staff i gymryd mantais arnoch chi?

Arfarniad gonest

Un tro, fe sylwodd y strategydd busnes enwog, Peter Drucker, fod cymharu canlyniadau penderfyniad â disgwyliadau'n dangos i weithredwyr lle y gorwedda'u cryfderau, lle mae angen iddyn nhw wella a lle nad oes digon o wybodaeth ganddyn nhw.

Fyddwch chi, fel rheolwr yn mynd ar drywydd penderfyniad o ddifrif ac yn cymharu canlyniadau â'r disgwyliadau gwreiddiol, ynteu fyddwch chi'n fwy cyfforddus yn asesu ar ôl yr achlysur gan ddangos dim mwy na ph'un a oedd y canlyniadau a gyflawnwyd yn dderbyniol ac yn foddhaol ai peidio? Ydy hyn yn wirioneddol eich helpu i ddysgu a symud ymlaen?

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council